

Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth GIG Felindre gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2016-17

Gorffennaf 2017

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebo: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Diben.....	5
2.	Trosolwg	5
3.	Negeseuon allweddol.....	5
4.	Canfyddiadau'r arolygiad.....	5
5.	Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith	6
6.	Llywodraethu.....	6
7.	Ymgysylltiad.....	6
8.	Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig.	6

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio pob gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau yn fewnol ac allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith rydym yn anelu i:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Diben

Lluniwyd yr adroddiad blynyddol hwn fel crynodeb o weithgarwch AGIC rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 mewn perthynas ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

2. Trosolwg

Ni chynhaliodd AGIC unrhyw arolygiadau o Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ystod y flwyddyn.

3. Negeseuon allweddol

Er na chynhaliodd AGIC unrhyw arolygiadau o Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ystod 2016-17, nododd yr hysbysiadau Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) a ddaeth i law ddull trylwyr a threfnus o ymchwilio gyda dysgu ar y cyd priodol.

Ni chafodd unrhyw bryderon ynghylch Ymddiriedolaeth GIG Felindre eu dwyn at sylw AGIC yn ystod 2016-17.

4. Canfyddiadau'r arolygiad

Ni chynhaliodd AGIC unrhyw arolygiadau o Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ystod y flwyddyn. Er nad yw AGIC wedi cynnal unrhyw arolygiadau o Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ystod 2016-17, cafodd AGIC ddau hysbysiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) a oedd yn berthnasol i'r ymddiriedolaeth. Canfu AGIC fod adroddiadau ymchwilio a chynlluniau gweithredu wedi'u llunio mewn modd trylwyr a threfnus. Cafodd AGIC ei sicrhau bod y digwyddiadau wedi'u hymchwilio'n effeithiol a bod dysgu ar y cyd priodol wedi'i roi ar waith i helpu i leihau'r risg yn y dyfodol.

Yn gysylltiedig â'r gweithgarwch arolygu a gynhaliwyd yn ystod 2015-16, adolygodd AGIC y cynllun gwella a gwblhawyd gan yr ymddiriedolaeth a chanfu ei fod yn gynhwysfawr ac wedi'i ystyried yn dda. O ganlyniad, cafodd AGIC ei sicrhau'n ddigonol fod y gwelliannau a nodwyd naill ai wedi'u cyflawni neu'n cael sylw gan yr ymddiriedolaeth.

5. Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

Nid anfonwyd llythyrau dilynol na llythyrau sicrwydd ar unwaith i'r ymddiriedolaeth.

6. Llywodraethu

Cafodd yr ymddiriedolaeth nifer o gyfleoedd yn ystod 2016-17 i ddangos ei bod yn sefydliad dysgu. Pan oedd materion yn codi, roedd yr ymddiriedolaeth yn ymateb yn gadarn, gan ymgysylltu ag AGIC i ddangos y gallai wella gwasanaethau lle y bo angen.

Mae'n amlwg bod yr ymddiriedolaeth yn sicrhau bod hysbysiadau Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn cael eu hymchwilio mewn modd trefnus a thrylwyr. Yn ogystal â hyn, nodwyd sut y croesawyd dysgu ar y cyd er mwyn sicrhau bod adrannau cenedlaethol eraill yn ymwybodol o ddigwyddiadau i helpu i leihau'r risg y bydd yr un peth yn digwydd yn y dyfodol.

Trafodwyd adroddiad arolygu mis Mawrth 2016 ym Mhwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr ymddiriedolaeth.

7. Ymgysylltiad

Yn ystod 2016-17, aeth Rheolwr Perthynas AGIC i nifer o gyfarfodydd, gan gynnwys cyflwyniad adroddiad 2015-16 yr Ymddiriedolaeth i'r Bwrdd Cyhoeddus.

Cyfarfu Prif Weithredwr AGIC â Phrif Weithredwr a Chadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn ystod mis Mai 2016.

8. Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig

Ni chynhaliwyd unrhyw arolygiad, adolygiad arbennig, ymchwiliad na gweithgarwch thematig yn ystod 2016-17.